

Canllaw Arfer Da

Cynnal Ffiniau Proffesiynol Gyda Dysgwyr



CYFLWYNIAD

Fel cofrestrai gyda CGA, rydych mewn sefyllfa unigryw o ymddiriedaeth, gofal, cyfrifoldeb a dylanwad gyda dysgwyr. Mae hyn yn arwain at anghydbwysedd naturiol o ran awdurdod a rheolaeth rhwng addysgwyr a dysgwyr. Mae cynnal ffiniau proffesiynol clir yn eich perthnasau gyda dysgwyr yn eu diogelu nhw ac yn eich gwarchod chi. Fodd bynnag, gallai rhai dulliau o ymgysylltu â dysgwyr arwain at fathau o ymddygiad sy'n fwy ymlaciedig, anffurfiol sydd, o bosibl yn ddiymwybod, yn gallu pylu'r ffiniau hynny.

Nod y canllaw hwn yw helpu i godi'ch ymwybyddiaeth a'ch dealltwriaeth mewn perthynas â rheoli eich perthnasau proffesiynol gyda dysgwyr. Ni all fynd i'r afael â'r holl amgylchiadau posibl y gallech eu hwynebu felly ni fwriedir iddo fod yn rhestr derfynol o fathau o ymddygiad annerbyniol neu annoeth ond yn hytrach fe'i darperir i godi ymwybyddiaeth o faterion a sefyllfaoedd sy'n gallu codi.

Y COD

Mae holl gofrestreion Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n nodi'r egwyddorion allweddol o ran ymddygiad ac ymarfer da i gofrestreion. Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r Cod y gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan CGA.

Yr egwyddorion a'r disgwyliadau a nodir yn y Cod sy'n cyfeirio at ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr yw:

1. Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol

Mae cofrestreion:


- 1.1 yn cydnabod eu cyfrifoldeb personol fel model rôl a ffigur cyhoeddus, i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg, a hynny yn y gweithle a thu allan iddo;
- 1.2 cynnal perthnasau gyda dysgwyr mewn modd proffesiynol, drwy:
 - gyfathrebu gyda dysgwyr mewn modd parchus, mewn ffordd sy'n briodol iddynt;
 - defnyddio pob math o ddull cyfathrebu mewn modd priodol a chyfrifol, yn arbennig ar gyfryngau cymdeithasol;
 - sicrhau bod unrhyw gyffwrdd corfforol yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur;
 - cyfrannu at greu amgylchedd dysgu teg a chynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, ystrydebu a bwlio;
 - cynnal ffiniau proffesiynol.
- 1.4 meddu ar ddyletswydd gofal dros ddiogelwch dysgwyr a'u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol:
 - gweithredu ar unrhyw beth a allai beryglu diogelwch neu lesiant dysgwr

2. 2. Integriti Proffesiynol

Mae cofrestreion:

- 2.1 yn atebol am eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol

Mae modd lawrlwytho'r Cod o'n [gwefan](#).



FFINIAU PROFFESIYNOL

Caiff ffiniau proffesiynol eu torri pan fydd cofrestrai'n camddefnyddio'i awdurdod neu ei reolaeth yn ei berthynas/pherthynas gyda dysgwr. Yn aml mae'n hawdd adnabod ymddygiad sy'n torri'r ffiniau hynny. Fodd bynnag, gallai fod rhai mathau o ymddygiad lle mae torri'r ffin yn llai amlwg a'ch cyfrifoldeb chi yw sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol gyda'ch dysgwyr.

Wrth ryngweithio gyda dysgwyr, mae'n rhaid meddwl yn ofalus am y goblygiadau a'r canlyniadau posibl. Er enghraifft, pan fydd cofrestrai'n troi'n gyfrinachwr (ffrind mynwesol) neu'n gwmsler i ddysgwyr (lle nad yw hynny'n rhan o'i rôl), caiff perthynas ei chreu ac mae hyn yn gallu pylu ffiniau'r berthynas rhwng y cofrestrai a'r dysgwr ac mae'r rolau'n llai eglur.

Weithiau, gall dysgwyr groesi ffiniau gyda chofrestreion yn fwriadol neu'n anfwriadol er enghraifft yn y ffordd maen nhw'n siarad neu drwy gychwyn cysylltiad amhriodol, o bosibl ar gyfryngau cymdeithasol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n bwysig i'r cofrestrai gamu i ffwrdd o unrhyw gysylltiad neu sgwrs amhriodol.

Y tu allan i'r gweithle, mae'n bosibl bydd angen i gofrestrai reoli perthynas breifat neu broffesiynol gyda dysgwr megis mewn gweithgareddau allgyrsiol neu fel hyfforddwr chwaraeon. Rydych chi bob amser mewn sefyllfa o ymddiriedaeth ac awdurdod gyda dysgwyr a dylai eich ymddygiad barhau i fod yn broffesiynol, ni waeth beth yw'r lleoliad.

CODI EICH YMWHYBYDDIAETH

Dylai'r ffordd rydych yn ymgysylltu â dysgwyr daro cydbwysedd gofalus rhwng ymgysylltiad proffesiynol a phellter proffesiynol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o achosion o dorri ffiniau proffesiynol. Nid yw'r rhain yn gyfan gwbl annibynnol ar ei gilydd a gallai achosion o'u torri rychwantu nifer ohonynt.

MATHAU O FFINIAU PROFFESIYNOL	ENGHREIFFTIAU O ACHOSION O DORRI FFINIAU PROFFESIYNOL
Ffiniau emosiynol - mae'r rhain yn cynnwys lefelau priodol o emosiwn wrth ryngweithio gyda dysgwyr.	<ul style="list-style-type: none">Rhoi triniaeth ffafriol i ddysgwr penodol heb reswm dilysDefnyddio mathau cynnil o reolaeth fel bod dysgwr yn datblygu dibyniaeth emosiynol ar y cofrestraiGweithredu fel 'ffrind' neu 'gwmsler personol' (pan nad yw hyn yn rhan o'u rôl)
Ffiniau perthnasau - Perthnasau proffesiynol yn unig yw'r perthnasau rhwng yr ymarferydd a'r dysgwr.	<ul style="list-style-type: none">Ymgysylltu â pherthnasau personol-gorfforol, rhamantus neu rywiol gyda dysgwrYmgymryd ag ymddygiad fflyrtiog gyda dysgwrCyffwrdd neu ystumio'n personol-gorfforol, ee cofleidio dysgwr (mae hyn yn wahanol i'r mathau o gyffwrdd y gallai cofrestrai sy'n gweithio gyda phlant iau ymgymryd â nhw fel arfer yn ei rôl)Rhoi rhodd yn breifat i ddysgwrMynegi teimladau rhamantus tuag at ddysgwr - o bosibl ar lafar neu'n ysgrifenedig (gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol)Cyfarfod â dysgwr ar ei ben/ei phen ei hun y tu allan i'r amgylchedd dysgu heb gyd-destun dilys a heb ganiatâd priodolMynd â dysgwr am dro anawdurdodedig, ee am goffi, i'r sinema neu i ddigwyddiadau cymdeithasol eraillFfario dysgwr penodol, heb ddiben addysgol na diben dilysEnnill ymddiriedaeth teulu a ffrindiau dysgwr fel ffordd o integreiddio'i hun ymhellach i fywyd y dysgwr

<p>Ffiniau awdurdod a /neu reolaeth - mae ymarferwyr mewn sefyllfa unigryw o ran grym ac awdurdod dros y dysgwr ac mae'n rhaid iddynt sicrhau nad ydynt yn camddefnyddio'r sefyllfa honno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio awdurdod y cofrestrai i niweidio neu fygwth niweidio dysgwr • Cadw gwybodaeth wrth ddysgwr er mwyn dylanwadu arno/arni, ee er mwyn bod ar ei ben/ei phen ei hun gydag ef/hi • Gwobrwyo neu gosbi dysgwr ar sail perthynas amhriodol • Defnyddio dysgwr er mwyn cael budd personol
<p>Ffiniau cyfathrebu - dylai dull a diben cyfathrebu ymarferydd gyda dysgwyr ffocysu ar eu hanghenion addysgol. Mae problemau o ran cynnal ffiniau'n ymwneud yn aml â materion hunanddatgelu gan ymarferwyr i ddysgwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Siarad neu jocan gyda dysgwr am faterion personol neu faterion sy'n amhriodol yn rhywiol • Defnyddio iaith amhriodol • Gwneud sylwadau amhriodol am ymddangosiad dysgwr, gan gynnwys sylwadau gor-ganmoliaethus • Difenwi neu fychanu dysgwr • Defnyddio enwau anwes ar gyfer dysgwyr • Ymgymryd â chyfathrebu o natur bersonol gyda dysgwyr • Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ryngweithio gyda dysgwr heb gyddestun addysgol dilys na champau diogelu priodol • Cynnig cyngor i ddysgwr ar faterion personol lle na wneir hyn mewn sefyllfa awdurdodedig, fel gofal bugeiliol penodedig • Torri cyfrinachedd eraill i ddysgwr
<p>Ffiniau corfforol - mae cyffwrdd, trin ac atal dysgwyr yn briodol yn bwysig pan fydd hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur. Gweler Canllaw CGA i arferion da o ran 'cyffwrdd priodol', trin ac atal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyffwrdd â dysgwr heb reswm na chyd-destun dilys/awdurdodedig (ee tynnu dysgwr yn gorfforol o berygl, cysuro plentyn trist neu ddarparu cymorth cyntaf) • Cyffwrdd â dysgwr, yn bersonol neu gyda gwrthrych mewn modd di-alw-amdano, digroeso a/neu amhriodol • Dechrau neu ganiatáu cyffwrdd corfforol amhriodol gan neu ar ddysgwr, ee tylino neu gemau goglais • Caniatáu i ddysgwyr ddod i gyffyrddiad amhriodol fel symud yn rhy agos i ymarferydd • Bod yn bresennol pan fydd dysgwyr yn gwisgo neu'n dadwisgo, heb fod mewn rôl briodol

GOFYNNWCH I CHI'CH HUN

- Fyddwn i'n newid fy ymddygiad gyda dysgwr petai cydweithiwr yn bresennol neu'n dod yn ymwybodol o hyn?
- Fyddwn i'n barnu fy ymddygiad yn negyddol pe bawn i'n gweld cydweithiwr yn ymddwyn fel hyn?
- Fyddai'r cyhoedd o'r farn bod fy ymddygiad yn amhriodol o ystyried fy rôl fel person proffesiynol?

Os byddech yn ateb yn gadarnhaol i unrhyw rai o'ch uchod yna mae risg bosibl y gallai ffiniau proffesiynol gael eu croesi.

CANLYNIADAU

Mae'r enghreifftiau isod yn rhai o'r achosion a atgyfeiriwyd at CGA i ymchwilio iddynt am gofrestreion (o bob sector cofrestrai) nad ydynt wedi cynnal ffiniau priodol gyda dysgwyr ac sydd wedi bod yn ddarostyngedig i weithdrefnau disgyblu CGA o ganlyniad.

Ym mhob achos mae achos clir o dorri'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol wedi bod a derbyniodd y cofrestreion ystod o sancsiynau disgyblu gan gynnwys, mewn rhai achosion, cael eu gwahardd rhag ymarfer yn y gweithlu addysg yn y dyfodol.

Bu i gofrestrai:

- orlwytho dysgwr gyda negeseuon testun, galwadau a negeseuon llun personol a oedd yn cynnwys sylwadau wedi'u rhywioli a sylwadau amhriodol;
- gweithredu fel 'cyfrinachwr' i ddysgwr o dan 16 oed ac, unwaith i ddibyniaeth emosiynol gael ei sefydlu, dechreuon nhw berthynas rywiol;
- rhannu gwybodaeth bersonol gyda dysgwr a thrafod dysgwyr eraill yn ogystal â chyda chydweithwyr tra'n cael perthynas rywiol, yn aml yng nghartref y cofrestrai ei hun;
- prynu alcohol i ddysgwyr a chyfnewid nifer fawr o negeseuon amhriodol gyda nhw drwy ystod o apiau cyfryngau cymdeithasol, gan ddweud wrthynt i'w dileu bob tro;
- ymweld â dysgwr a'u rhieni yn eu cartref ar nifer o achlysuron heb unrhyw reswm nac awdurdod dilys. Roedd hyn er mwyn ennill eu hymddiriedaeth ac yn ffordd o allu datblygu perthynas gyda'r dysgwr;
- cymdeithasu gyda dysgwyr (mewn ystafell wely dysgwr) ac yfed alcohol gyda nhw yn ystod taith addysgol;
- bwlio, aflonyddu ac ymosod yn gorfforol ar blentyn yn systemataidd mewn lleoliad ysgol arbennig;
- gweiddi ar blant oedran meithrin a'u cam-drafod ar nifer o achlysuron gan achosi cleisio ac ofn i'r dysgwyr;
- bychanu dysgwyr yn rheolaidd drwy wneud sylwadau amhriodol amdanynt gan gynnwys mewn perthynas â rhywedd, hil a maint. Ategwyd hyn gan ystod o 'lysenwau' difenwol yn hytrach na'u henwau iawn;
- atal plentyn yn amhriodol drwy ei glymu i gelficyn a thapio'i ddwylo at ei gilydd a thapio'i geg ar gau.

SUT GALLWN EICH CEFNOGI YMHELLACH

Mae CGA yn cynnig cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar briodoldeb i ymarfer. Os hoffech chi neu eich cyflogwr drefnu un o'r cyflwyniadau hyn yn y gweithle, cysylltwch â gwybodaeth@cga.cymru.

Gellir dod o hyd i God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA ar gyfer Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a gellir dod o hyd i wybodaeth am ein gwaith priodoldeb i ymarfer ar ein gwefan, sef www.cga.cymru.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y Tîm Priodoldeb i Ymarfer yn priodoldebiymarfer@cga.cymru.